




Disgyblion sy'n Derbyng Addysg Heblaw yn yr Ysgol, 2016/17

03 Awst 2017
SFR 86/2017

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol hwn yn nodi nifer y disgyblion sydd yn derbyn addysg y tu allan i ysgol a ariennir gan awdurdodau lleol Cymru a nifer y disgyblion sydd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg o'r mathau hyn yn ystod wythnos cyfrifiad ym mis Ionawr ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2010/11 i 2016/17. Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17 roedd wythnos y cyfrifiad o 9 i 13 Ionawr 2017.

Siart 1: Cyfradd disgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol



Mae'r gyfradd o ddisgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol wedi gostwng yn dros y flwyddyn olaf i 3.0 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2016/17. Er hynny, mae'r gyfradd yn uwch na phum mlynedd cynt.



Disgyblion EOTAS yw disgyblion sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol a ariennir gan awdurdodau lleol Cymru.

- **1,972** nifer y disgyblion EOTAS.
- **1,402** nifer y disgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol ([Tabl 1](#)).
- **3.0** o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol ([Tabl 2](#)).

Unedau cyfeirio disgyblion oedd y math mwyaf poblogaidd o addysg EOTAS ([Tabl 7](#)).

Bechgyn oedd 7 o bob 10 disgybl sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol ([Tabl 3](#)).

Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad yn cynnwys data ar ddisgyblion sydd yn derbyn addysg y tu allan i ysgol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn ol oedran, rhyw a'r math o ddarpariaeth.

Dngosir data ar lefel awdurdod lleol / consortia a Chymru.

Yn y datganiad hwn:

Disgyblion EOTAS fesul:

[Awdurdod lleol](#) 4-6

Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol:

[Oed a rhyw](#) 7

[Anghenion Addysgol Arbennig \(AAA\)](#) 8

[Prydau ysgol am ddim](#) 8

[Cefndir ethnig](#) 9

Disgyblion EOTAS:

[Darpariaeth addysgol EOTAS](#) 10-11

[Unedau Cyfeirio Disgyblion](#) 12-13

[Disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref](#) 14

Cynnwys

Siart 1	Cyfradd disgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol	1
---------	--	---

Dadansoddiad fesul awdurdod lleol o ddisgyblion EOTAS

Tabl 1	Nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, fesul awdurdod lleol, 2016/17	4
Tabl 2	Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul awdurdod lleol, 2011/12-2016/17	6

Disgyblion EOTAS mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul nodweddion disgyblion

Tabl 3	Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul oedran a rhyw, 2011/12-2016/17	7
Tabl 4	Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), 2011/12-2016/17	8
Tabl 5	Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul hawl i brydau ysgol am ddim, 2011/12-2016/17	8
Tabl 6	Disgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul cefndir ethnig, 2011/12-2016/17	9

Darpariaethau addysgol a roddir i ddisgyblion EOTAS

Tabl 7	Disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul darpariaeth addysgol, 2016/17	10
Siart 2	Nifer y cofrestriadau disgyblion, fesul darpariaeth addysgol, 2016/17	11
Siart 3	Canran y cofrestriadau disgyblion, fesul darpariaeth addysgol, 2011/12-2016/17	11

Nifer y disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion

Tabl 8	Nifer y disgyblion sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru, fesul oedran, 2016/17	12
Tabl 9	Nifer y disgyblion sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru, fesul awdurdod lleol, 2016/17	13

Disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref

Tabl 10	Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref, fesul awdurdod lleol, 2011/12-2016/17	14
---------	--	----

Gwybodaeth ychwanegol

Nodiadau	15
--------------------------	----

Cyflwyniad

Mae [Siart 1](#) yn dangos sut mae cyfradd y disgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol wedi newid dros y blynyddoedd.

Mae [Tabl 1](#) yn dangos dadansoddiad o nifer y disgyblion EOTAS ym mhob awdurdod lleol fesul statws cofrestru yn CYBLD ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

Mae [Tablau 2 a 3](#) yn dangos nifer y disgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul awdurdod lleol, rhyw ac oedran ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2011/12 i 2016/17 ac yn dangos y gyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion o'r data hyn, gan roi mesur mwy dibynadwy o'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o ddisgyblion.

Mae [Tablau 4 i 6](#) yn dadansoddi nifer a chanran y disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol fesul angen addysgol arbennig, hawl i brydau ysgol am ddim a chefnidir ethnig.

Mae [Tabl 7](#) yn dangos y mathau o addysg sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion sydd â'uprif addysg heblaw yn yr ysgol. Mae [Siart 2](#) yn rhoi'r data hyn yn nhrefn nifer y cofrestrïadau ac mae [Siart 3](#) yn dangos sut mae'r ganran cofrestrïadau mewn gwahanol ddarpariaethau addysgol wedi newid dros y blynyddoedd.

Mae [Tablau 8 a 9](#) yn dangos nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn un uned cyfeirio disgyblion neu sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn uned cyfeirio disgyblion fesul oedran, rhyw ac awdurdod lleol.

Mae [Tabl 10](#) yn ymwneud â disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref ac yn dadansoddi'r ffigurau fesul awdurdod lleol. Nid yw'r disgyblion y tu ôl i'r data addysg ddewisol yn y cartref yn cael eu cynnwys mewn unrhyw dablau eraill yn y datganiad ystadegol hwn.

Tabl 1: Nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, fesul awdurdod lleol, 2016/17

Awdurdod Lleol	Disgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg y tu allan i'r ysgol, ac		Cyfanswm	Disgyblion EOTAS sydd â	
	nid ydynt ar gofrestr ysgol a gynhelir	mae ganddynt statws cofrestru atodol mewn ysgol a gynhelir		statws cofrestru prif gyfredol neu gyfredol mewn ysgol a gynhelir	Yr holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth EOTAS
Ynys Môn	40	0	40	*	*
Gwynedd	*	*	38	6	44
Conwy	63	0	63	0	63
Sir Ddinbych	75	0	75	54	129
Sir y Fflint	67	28	95	13	108
Wrecsam	9	27	36	0	36
Powys	42	10	52	7	59
Ceredigion	*	*	15	21	36
Sir Penfro	15	15	30	52	82
Sir Gaerfyrddin	*	*	59	11	70
Abertawe	32	108	140	10	150
Castell-nedd Port Talbot	*	*	56	*	*
Pen-y-bont ar Ogwr	*	*	30	18	48
Bro Morgannwg	49	54	103	*	*
Rhondda Cynon Taf	60	89	149	26	175
Merthyr Tudful	10	19	29	*	*
Caerffili	25	5	30	190	220
Blaenau Gwent	16	41	57	*	*
Torfaen	14	0	14	21	35
Sir Fynwy	*	*	12	18	30
Casnewydd	80	16	96	28	124
Caerdydd	174	9	183	85	268
Cymru	0	0	0	0	0
2015/16	892	510	1,402	570	1,972
2014/15	909	603	1,512	602	2,114
2013/14	909	478	1,387	770	2,157
2012/13	958	267	1,225	1,142	2,367
2011/12	995	225	1,220	1,357	2,577

Ffynonellau: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

Prif bwntiau


1,972 nifer y disgyblion EOTAS.

1,402 nifer y disgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.

71.1% canran y disgyblion EOTAS sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.

- Yn 2016/17, cofnodwyd bod 1,972 o ddisgyblion yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a ariennir gan eu hawdurdod lleol yn ystod wythnos y cyfrifiad (9 i 13 Ionawr 2016). Yn y datganiad ystadegol hwn cyfeirir at ddisgyblion o'r fath fel 'disgyblion EOTAS'.
- Nid yw'r holl ddisgyblion EOTAS yn derbyn eu haddysg y tu allan i ysgol a gynhelir yn unig. Mewn gwirionedd, mae llawer ohonynt yn dal i fod ar gofrestri ysgolion a gynhelir. O'r 1,972 o ddisgyblion EOTAS:

- Nid oedd 892 o ddisgyblion ar gofrestr ysgol a gynhelir yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2017, felly dim ond 'heblaw yn yr ysgol' yr oeddent yn derbyn addysg
- Roedd gan 510 o ddisgyblion statws cofrestru 'atodol cyfredol' mewn ysgolion a gynhelir yn CYBLD Ionawr 2017, sy'n golygu bod eu prif addysg 'heblaw yn yr ysgol'
- Roedd gan 570 o ddisgyblion statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgolion a gynhelir yn CYBLD Ionawr 2017, sy'n golygu bod eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir.
- Gellir gweld y dadansoddiad hwn yn y diagram canlynol. Mae'r cylch ar y chwith yn cynrychioli'r disgyblion EOTAS oedd ar y gofrestr mewn ysgol a gynhelir, ac mae'r cylch ar y dde'n dangos y disgyblion EOTAS roedd eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r rhan lle mae'r cylchoedd yn gorgyffwrdd yn dangos nifer y disgyblion EOTAS roedd eu prif addysg heblaw yn yr ysgol oedd â statws cofrestru 'atodol cyfredol' mewn ysgol a gynhelir.



- Gan fod disgyblion â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' yn CYBLD Ionawr 2017 yn cael eu cynnwys yn y cyhoeddiad Cyfrifiad Ysgolion, bydd y datganiad ystadegol hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y disgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, sef y disgyblion a gynrychiolir gan y cylch ar y dde.

Tabl 2: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul awdurdod lleol, 2011/12-2016/17 (a)

	Nifer						Cyfradd (a)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Ynys Môn	6	40	23	23	20	40	0.6	4.2	2.4	2.4	2.1	4.1
Gwynedd	40	47	31	29	69	38	2.3	2.7	1.8	1.7	4.0	2.2
Conwy	55	60	75	70	55	63	3.4	3.7	4.7	4.4	3.4	4.0
Sir Ddinbych	60	68	66	45	62	75	3.8	4.3	4.2	2.8	3.9	4.8
Sir y Fflint	53	111	137	145	119	95	2.2	4.7	5.7	6.1	5.0	4.0
Wrecsam	63	62	59	47	41	36	3.3	3.2	3.0	2.4	2.1	1.8
Powys	49	50	59	58	59	52	2.6	2.6	3.2	3.2	3.3	2.9
Ceredigion	24	20	16	15	31	15	2.5	2.1	1.7	1.6	3.2	1.6
Sir Penfro	10	10	8	10	18	30	0.5	0.6	0.4	0.6	1.0	1.7
Sir Gaerfyrddin	17	23	30	50	72	59	0.6	0.8	1.1	1.8	2.6	2.2
Abertawe	150	138	128	178	168	140	4.3	3.9	3.6	5.0	4.7	3.9
Castell-nedd Port Talbot	39	63	92	80	76	56	1.9	3.1	4.4	3.9	3.6	2.7
Pen-y-bont ar Ogwr	22	34	29	39	45	30	1.0	1.5	1.3	1.7	2.0	1.3
Bro Morgannwg	67	93	96	80	108	103	3.0	4.2	4.4	3.6	4.8	4.6
Rhondda Cynon Taf	91	84	87	102	160	149	2.3	2.1	2.2	2.6	4.1	3.8
Merthyr Tudful	8	6	0	*	40	29	0.9	0.7	0.0	*	4.6	3.3
Caerffili	32	45	16	142	70	30	1.1	1.6	0.6	4.9	2.4	1.1
Blaenau Gwent	5	13	43	33	43	57	0.5	1.3	4.5	3.5	4.6	6.1
Torfaen	17	19	20	26	24	14	1.1	1.2	1.3	1.7	1.6	0.9
Sir Fynwy	4	5	6	*	12	12	0.3	0.4	0.5	*	1.0	1.0
Casnewydd	68	78	67	68	87	96	2.8	3.2	2.7	2.7	3.4	3.8
Caerdydd	146	151	137	139	133	183	2.9	2.9	2.6	2.6	2.5	3.4
Cymru	1,026	1,220	1,225	1,387	1,512	1,402	2.2	2.6	2.6	3.0	3.2	3.0

Ffynonellau: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Ysgolion, Llywodraeth Cymru

(a) Cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser-llawn a rhan-amser mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir a disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn ôl Cyfrifiad Ysgolion mis Ionawr a Chyfrifiad Disgyblion EOTAS.

Prif bwyntiau

3.0 o bob 1,000 o ddisgyblion oedd yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.

Mae cyfradd y disgyblion oedd yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol wedi gostwng yn yn 2016/17.

Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol.

- Yn 2016/17, 3.0 o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru oedd yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r ffigur hwn yn is nac yn 2015/16 ond wedi cynyddu dros y pum mlynedd cyn hynny.
- Mae cyfradd y disgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol 0.8 pwynt canrannol yn uwch nag yr oedd yn 2011/12.
- Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol yn 2016/17 (6.1 o bob 1,000 o ddisgyblion).

Tabl 3: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul oedran a rhyw, 2011/12-2016/17 (a)

	Nifer						Cyfradd (a)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Rhyw												
Bechgyn	744	841	858	990	1,060	979	3.1	3.5	3.6	4.2	4.4	4.1
Merched	282	379	367	397	452	423	1.2	1.7	1.6	1.7	2.0	1.8
Disgyblion	1,026	1,220	1,225	1,387	1,512	1,402	2.2	2.6	2.6	3.0	3.2	3.0
Oedran (b)												
19 neu hŷn	0	0	0	0	0	0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
18	0	3	0	*	0	0	0.0	21.0	0.0	*	0.0	0.0
17	13	20	23	25	18	22	8.4	12.8	14.9	17.6	12.2	19.9
16	27	45	36	47	49	56	2.1	3.6	2.9	3.7	4.1	4.9
15	64	65	65	75	80	59	4.0	4.2	4.1	4.9	5.5	4.4
14	428	493	546	609	718	596	12.4	13.7	15.8	18.2	22.2	18.9
13	168	233	213	262	243	211	4.7	6.7	6.4	8.1	7.6	6.8
12	114	120	120	132	150	148	3.3	3.6	3.7	4.1	4.9	4.7
11	75	77	68	83	90	69	2.2	2.4	2.1	2.7	2.8	2.1
10	34	47	40	48	42	52	1.1	1.5	1.3	1.5	1.3	1.6
9	30	23	32	19	35	47	0.9	0.7	1.0	0.6	1.1	1.4
8	17	27	18	29	21	44	0.5	0.9	0.6	0.9	0.6	1.3
7	25	14	22	17	15	36	0.8	0.4	0.7	0.5	0.4	1.0
6	9	15	9	10	19	15	0.3	0.5	0.3	0.3	0.5	0.4
5	9	11	7	10	7	18	0.3	0.3	0.2	0.3	0.2	0.5
O dan 5	5	8	9	*	7	9	0.1	0.2	0.3	*	0.2	0.2
Cyfanswm	8	19	17	14	18	20	0.1	0.3	0.2	0.2	0.2	0.3

Ffynonellau: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Ysgolion, Llywodraeth Cymru

- (a) Cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser-llawn a rhan-amser mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig eiddau a disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn ôl Cyfrifiad Ysgolion mis Ionawr a Chyfrifiad Disgyblion EOTAS.
- (b) Oedran ar 31 Awst, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Prif bwyntiau

Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol:

- Bechgyn oedd 7 o bob 10 o'r disgyblion.
- Disgyblion 15 oed oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion EOTAS. (o'r disgyblion 11-15 oed)

- Ers 2011/12 gwelwyd mwy o fechgyn sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol nag o ferched ac mae hyn yn dal i fod yn wir yn 2016/17. Bechgyn oedd rhyw 7 o bob 10 o ddisgyblion â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol.
- Mae cyfradd y bechgyn sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol wedi gostwng ers 2015/16, ond mae wedi bod yn uwch a 4 y cant ers 2014/15. Mae cyfradd y merched wedi codi a disgyn ers 2011/12 ond yn gyffredinol mae wedi cynyddu.
- Y grŵp oedran â'r nifer fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol oedd rhai 18 oed.
- O'r disgyblion 11-15 oed, y grŵp oedran â'r nifer fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol oedd rhai 15 oed. Roedd ychydig mwy na 4 o bob 10 o ddisgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol yn 15 oed. Mae cyfradd y disgyblion 11-15 oed sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol yn codi wrth i oedran y disgyblion godi. Gellir gweld y duedd hon yn yr adran 'Cyfradd' yn Nhabl 3. Yn 2016/17, roedd 1.6 o bob 1,000 o ddisgyblion 11 oed yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol ac wrth i oedran disgyblion godi mae'r gyfradd hon hefyd yn codi, i 18.9 o bob 1,000 o ddisgyblion 15 oed.

Tabl 4: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), 2011/12-2016/17 (a)

Darpariaeth AAA	Nifer y disgyblion						Canran y disgyblion (a)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Datganiad AAA	365	443	424	463	472	468	35.6	36.3	34.6	33.4	31.2	33.4
Gw eithredu gan yr Ysgol a Mwy	503	553	594	645	705	694	49.0	45.3	48.5	46.5	46.6	49.5
Gw eithredu gan yr Ysgol Dim AAA	54	36	41	87	123	79	5.3	3.0	3.3	6.3	8.1	5.6
	104	188	166	192	212	161	10.1	15.4	13.6	13.8	14.0	11.5
Cyfanswm	1,026	1,220	1,225	1,387	1,512	1,402	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru

(a) Canran y disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.

Prif bwyntiau

Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol:

- 88.5% Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn 2016/17.
- Mae canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi cynyddu ers 2016/17.

- Yn 2016/17 parhaodd canran y disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol sydd ag anghenion addysgol arbennig i ostwng ychydig. (Increased for the first time since 2011/12)
- Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy fu'r ddarpariaeth AAA fwyaf cyffredin i ddisgyblion EOTAS sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol ers 2011/12.

Tabl 5: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul hawl i brydau ysgol am ddim, 2011/12-2016/17 (a)

Hawl i Brydau Ysgol am Ddim	Nifer y disgyblion						Canran y disgyblion (a)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Hawl i Brydau Ysgol am Ddim	315	379	407	484	629	462	30.7	31.1	33.2	34.9	41.6	33.0
Heb hawl i Brydau Ysgol am Ddim	711	841	818	903	883	940	69.3	68.9	66.8	65.1	58.4	67.0
Cyfanswm	1,026	1,220	1,225	1,387	1,512	1,402	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru

(a) Canran y disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.

Prif bwyntiau

Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol:

- Tua 1 o bob 3 o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim.

- Roedd gan 33.0 y cant (ychydig llai na 1 o bob 3) o'r disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol hawl i brydau ysgol am ddim yn 2016/17.
- Gostyngodd canran y disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn 2016/17 am y tro cyntaf ers pum mlynedd.

Tabl 6: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul cefndir ethnig, 2011/12-2016/17 (a)

Cefndir ethnig	Nifer y disgyblion						Canran y disgyblion (a)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Gwyn	892	1,089	1,113	1,275	1,419	1,303	86.9	89.3	90.9	91.9	93.8	92.9
Gwyn - Prydeinig	874	1,049	1,081	1,237	1,388	1,273	85.2	86.0	88.2	89.2	91.8	90.8
Teithiwr	7	6	*	9	7	6	0.7	0.5	0.5	0.6	0.5	0.4
Sipsi/Roma	1	5	*	6	8	7	*	0.4	*	0.4	0.5	0.5
Unrhyw gefndir gw yn arall	10	29	24	23	16	17	1.0	2.4	2.0	1.7	1.1	1.2
Cymysg	23	34	25	32	32	34	2.2	2.8	2.0	2.3	2.1	2.4
Gwyn a Du	7	14	7	11	11	14	0.7	1.1	0.6	0.8	0.7	1.0
Caribiaidd												
Gwyn a Du Affricanaidd	3	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwyn ac Asiaidd	3	5	*	*	*	*	*	0.4	*	0.4	*	*
Unrhyw gefndir cymysg arall	10	14	13	12	13	12	1.0	1.1	1.1	0.9	0.9	0.9
Asiaidd	8	4	*	7	10	8	0.8	*	*	0.5	0.7	0.6
Indiaidd	0	0	0	*	*	*	0.0	0.0	0.0	*	*	*
Pacistanaid	4	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Bangladeshaid	2	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Unrhyw gefndir Asiaidd arall	2	1	0	*	*	0	*	*	0.0	*	*	0.0
Du	6	5	*	*	*	*	0.6	0.4	*	*	*	*
Caribiaidd	2	2	0	0	0	*	*	*	0.0	0.0	0.0	*
Affricanaidd	2	2	*	*	0	*	*	*	*	*	0.0	*
Unrhyw gefndir Du arall	2	1	*	*	*	0	*	*	*	*	*	0.0
Tseiniaidd neu Brydeinig Tseiniaidd	1	1	*	0	0	0	*	*	*	0.0	0.0	0.0
Unrhyw grŵp ethnig arall	2	14	5	*	*	*	*	1.1	0.4	*	0.3	0.6
Cyfanswm â chategori cymwys	932	1,147	1,150	1,320	1,467	1,356	90.8	94.0	93.9	95.2	97.0	96.7
Anhysbys neu heb ei ddatgan	94	73	75	67	45	46	9.2	6.0	6.1	4.8	3.0	3.3
Holl ddisgyblion	1,026	1,220	1,225	1,387	1,512	1,402	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru

(a) Canran y disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol.

Tabl 7: Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol, fesul darpariaeth addysgol, 2016/17

Gan ei bod yn bosibl bod disgyblion yn mynychu mwy nag un ddarpariaeth addysgol mewn wythnos, efallai y caiff rhai disgyblion eu cyfrif o dan fwy nag un ddarpariaeth. Dyna pam mae nifer y cofrestriadau'n uwch na nifer y disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol (1,402 o ddisgyblion) yn Nhabl 1.

Darpariaeth addysgol	Nifer y cofrestriadau	Canran y cofrestriadau	Nifer gyfartalog yr oriau mae'r disgybl i fod i'w mynychu mewn wythnos
Uned cyfeirio disgyblion	663	44.3	23.6
Coleg addysg bellach	108	7.2	23.8
Ysgol a gynhelir	58	3.9	10.5
Ysgol arbennig na gynhelir	74	4.9	25.3
Dysgu unigol	226	15.1	11.6
Porth leuenctid	1	0.1	.
Addysg gysylltiedig â gw aith	12	0.8	7.5
Darparw r hyfforddiant	86	5.7	20.7
Sefydliad gw irfoddol	1	0.1	21.0
Darpariaeth sector preifat a brynwyd i mewn	28	1.9	20.1
Ysgol annibynnol	184	12.3	25.3
Darpariaeth na gynhelir gan aw durdod, neu sydd y tu allan iddo	16	1.1	24.3
Aros am ddarpariaeth neu heb ddarpariaeth ar hyn o bryd	19	1.3	.
Arall	20	1.3	23.5
Cyfanswm	1,496	100.0	20.9

Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru

"." nid yw'r eitem data'n gymwys.


Prif bwyntiau

Disgyblion sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol:

- 44.3% Canran y cofrestriadau disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion.
- 15.1% Canran y cofrestriadau disgyblion mewn dysgu unigol.
- 19 Nifer y disgyblion nad oeddent yn derbyn darpariaeth addysgol yn ystod wythnos y cyfrifiad.


- Yn 2016/17 roedd 663 o gofrestradau mewn unedau cyfeirio disgyblion, sef 44.3 y cant o'r holl gofrestradau addysgol EOTAS. O edrych ar Siart 2, gallwch weld bod unedau cyfeirio disgyblion wedi cael eu defnyddio'n llawer amlach i addysgu disgyblion EOTAS na darpariaethau eraill.
- Dysgu unigol oedd y darpariaeth addysgol mwyaf poblogaidd nesaf; roeddent yn cyfrif am 15.1 y cant o'r cofrestriadau addysgol EOTAS.
- Er bod y data EOTAS a gesglir yn cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol, mewn rhai amgylchiadau mae disgyblion EOTAS yn cael eu lleoli mewn ysgol a gynhelir fel rhan o'u darpariaeth. Cafodd 58 o ddisgyblion addysg EOTAS mewn ysgol a gynhelir.
- 20.9 awr oedd nifer gyfartalog yr oriau o addysg a ddarparwyd i ddisgyblion sydd â'u prif addysg y tu allan i'r ysgol yn ystod wythnos y cyfrifiad. Disgyblion oedd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig na gynhelir a gafodd y nifer fwyaf o oriau o ddarpariaeth yn ystod wythnos y cyfrifiad, wrth i 25.3 awr gael eu darparu i bob disgybl ar gyfartaledd.

Siart 2: Nifer y cofrestriadau disgyblion, fesul darpariaeth addysgol, 2016/17



Siart 3: Canran y cofrestriadau disgyblion, fesul darpariaeth addysgol, 2011/12-2016/17

Mae Siart 3 yn dangos sut mae canrannau'r cofrestriadau disgyblion o fewn darpariaeth EOTAS wedi newid ers 2011/12.



- Unedau cyfeirio disgyblion fu'r ddarpariaeth EOTAS a ddefnyddiwyd amlaf ers 2011/12. Cyrhaeddodd y defnydd ohonynt ei uchafbwynt yn 2013/14 ac yna gostyngodd yn 2014/15 a chynyddu eto yn 2015/16 cyn gostwng unwaith eto yn 2016/17.
- Yn 2016/17, gostyngodd-defnydd darpariaeth unigol, tra gwnaeth ddefnydd ysgolion annibynnol fel darpariaeth EOTAS ostwng. Yn 2016/17 darpariaeth unigol oedd yr ail ddarpariaeth fwyaf poblogaidd ar gyfer disgyblion EOTAS, fel yr oedd hi yn 2015/16.
- Yn 2016/17, colegau addysg bellach oedd y pedwerydd a darparwyr hyfforddiant oedd y pumed ddarpariaeth addysgol fwyaf poblogaidd ar gyfer disgyblion EOTAS.

Tabl 8: Nifer y disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, fesul oedran, 2016/17

Oedran (a)	Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn un PRU (b)			Disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn un PRU (c)		
	Bechgyn	Merched	Disgyblion	Bechgyn	Merched	Disgyblion
19 neu'n hŷn	0	0	0	0	0	0
18	*	0	*	0	0	0
17	*	*	*	0	0	0
16	*	*	5	*	*	*
15	168	105	273	8	15	23
14	83	38	121	32	20	52
13	65	22	87	37	9	46
12	30	5	35	*	6	31
11	*	*	24	*	*	20
10	*	*	30	*	*	20
9	23	5	28	*	*	15
8	*	*	20	*	*	18
7	9	0	9	7	0	7
6	*	*	14	*	0	*
5	5	0	5	*	0	*
O dan 5	*	*	7	0	0	0
Cyfanswm	476	187	663	179	62	241

Ffynonellau: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Oedran ar 31 Awst 2016.

(b) Mae'r ffigurau'n cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn addysg mewn un PRU yn unig ac yn cynnwys disgyblion sy'n derbyn darpariaethau EOTAS eraill, neu y cofnodir bod ganddynt statws cofrestru 'atodol gyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ond yn hepgor y rhai â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn y CYBLD.

(c) Mae'r ffigurau'n cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn addysg mewn mwy nag un PRU neu sy'n derbyn addysg mewn PRU tra bod ganddynt statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn CYBLD 2016/17.

Prif bwyntiau

Disgyblion EOTAS wedi'u cofrestru mewn unedau cyfeirio disgyblion:

- 663 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn un uned cyfeirio disgyblion.
- 241 o ddisgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn uned cyfeirio disgyblion.

- Yn ystod wythnos cyfrifiad 2016/17 roedd 663 o ddisgyblion EOTAS wedi'u cofrestru mewn un uned cyfeirio disgyblion. Bechgyn oedd ychydig llai na thri chwarter o'r disgyblion hyn.
- Yn Nhabl 3 gwelwyd bod cyfradd y disgyblion 11-15 oed sydd â'u prif addysg heblaw yn yr ysgol yn codi wrth i oedran y disgyblion godi. Gellir gweld tuedd debyg o ran cofrestradau mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn unedau cyfeirio disgyblion yn codi gyda phob grŵp oedran o 11 oed i 15 oed.
- Roedd 241 o ddisgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn uned cyfeirio disgyblion yn ystod wythnos cyfrifiad 2016/17. Golyga hyn eu bod naill ai'n mynychu mwy nag un uned neu eu bod ar y gofrestr mewn un uned ond yn derbyn eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir.

Tabl 9: Nifer y disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, fesul awdurdod lleol, 2016/17

Awdurdod Lleol (a)	Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn un PRU (b)			Disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn PRU (c)		
	Bechgyn	Merched	Disgyblion	Bechgyn	Merched	Disgyblion
Ynys Môn	*	*	9	*	0	*
Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Conwy	33	17	50	0	0	0
Sir Ddinbych	16	5	21	44	10	54
Sir y Fflint	46	20	66	*	*	8
Wrecsam	25	11	36	0	0	0
Powys	11	7	18	0	0	0
Ceredigion	*	*	9	*	*	15
Sir Penfro	12	6	18	38	12	50
Sir Gaerfyrddin	36	22	58	*	0	*
Abertawe	54	22	76	*	*	*
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	12	19	31	8	11	19
Bro Morgannwg	39	13	52	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	81	6	87	15	5	20
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Caerffili	16	5	21	14	0	14
Blaenau Gwent	41	12	53	*	0	*
Torfaen	*	0	*	8	7	15
Sir Fynwy	5	5	10	*	*	10
Casnewydd	*	*	17	*	*	14
Caerdydd	19	10	29	6	7	13
Cymru	476	187	663	179	62	241

Ffynonellau: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

- (a) Yn cyfeirio at yr awdurdod lleol lle mae'r disgyblion yn mynychu PRU, nid yr awdurdod lleol sy'n ariannu'r ddarpariaeth.
- (b) Mae'r ffigurau'n cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn addysg mewn un PRU yn unig ac yn cynnwys disgyblion sy'n derbyn darpariaethau EOTAS eraill, neu y cofnodir bod ganddynt statws cofrestru 'atodol gyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ond yn hepgor y rhai â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn y CYBLD.
- (c) Mae'r ffigurau'n cyfeirio at ddisgyblion sy'n derbyn addysg mewn mwy nag un PRU neu sy'n derbyn addysg mewn PRU tra bo ganddynt statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig yn CYBLD 2016/17.

- Rhondda Cynon Taf oedd â'r nifer fwyaf o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn un uned cyfeirio disgyblion (87 o ddisgyblion).
- Nid oedd gan Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful unrhyw ddisgyblion ar y gofrestr mewn uned cyfeirio disgyblion yn ystod wythnos y cyfrifiad 2016/17.

Tabl 10: Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg yn y cartref, fesul awdurdod lleol, 2011/12-2016/17 (a)

	Nifer						Cyfradd (b)					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Ynys Môn	2	27	23	21	23	36	0.3	3.6	3.0	2.8	3.0	4.7
Gwynedd	53	55	69	55	64	53	3.8	3.9	5.0	4.0	4.6	3.8
Conwy	53	58	40	62	108	76	4.2	4.6	3.2	5.0	8.6	6.1
Sir Ddinbych	50	43	58	55	47	51	4.0	3.5	4.7	4.4	3.8	4.0
Sir y Fflint	40	51	39	46	59	71	2.1	2.7	2.1	2.5	3.1	3.8
Wrecsam	20	21	20	30	47	72	1.3	1.4	1.3	1.9	3.0	4.5
Powys	99	101	120	112	122	133	6.5	6.7	8.0	7.6	8.4	9.1
Ceredigion	117	122	112	111	113	139	15.2	15.9	14.7	14.9	15.1	18.4
Sir Penfro	70	92	92	106	123	132	4.9	6.5	6.5	7.6	8.9	9.5
Sir Gaerfyrddin	82	74	122	160	209	..	3.8	3.4	5.7	7.4	9.6	..
Abertawe	69	69	81	104	128	153	2.5	2.5	2.9	3.7	4.5	5.4
Castell-nedd Port Talbot	36	41	34	58	91	117	2.1	2.5	2.0	3.5	5.4	6.8
Pen-y-bont ar Ogwr	43	38	43	67	74	88	2.5	2.2	2.5	3.9	4.2	4.9
Bro Morgannwg	17	32	30	35	32	33	1.0	1.9	1.8	2.1	1.9	1.9
Rhondda Cynon Taf	37	51	55	63	83	118	1.2	1.7	1.9	2.1	2.8	3.9
Merthyr Tudful	9	14	13	17	20	31	1.3	2.0	1.8	2.4	2.8	4.3
Caerffili	29	..	31	29	42	61	1.3	..	1.4	1.3	1.8	2.7
Blaenau Gwent	8	12	19	14	15	30	1.0	1.5	2.5	1.8	2.0	4.0
Torfaen	16	21	32	36	50	51	1.3	1.7	2.7	3.0	4.2	4.2
Sir Fynwy	17	28	24	27	31	49	1.8	3.0	2.6	2.9	3.3	5.2
Casnewydd	27	24	26	33	36	42	1.4	1.3	1.4	1.7	1.8	2.1
Caerdydd	92	129	142	158	165	188	2.3	3.3	3.5	3.9	4.0	4.4
Cymru	986	1,103	1,225	1,399	1,682	1,724	2.7	3.2	3.4	3.8	4.6	4.6

Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion EOTAS, Llywodraeth Cymru

(a) Mae'r data'n cyfeirio at ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Lle nad oedd yr awdurdodau yn gwylbod oedran disgyblion, gofynnwyd iddynt roi amcangyfrif.

(b) Cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r enwadur yn cynnwys disgyblion mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, disgyblion oedd â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' ar CYBLD mis lon a disgyblion y gwyllyddys eu bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

Golyga ".." nad yw'r eitem data ar gael.

Pwyntiau allewddol

Disgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn 2016/17:

- Roedd 1,724 o ddisgyblion yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref.
- Ceredigion oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

- Ym mlwyddyn academaidd 2016/17 roedd yn hysbys bod 1,724 o blant yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Golyga hyn fod rhieni'r disgyblion hyn wedi penderfynu addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol.
- Doedd dim newid yn 2016/17 yn y gyfradd y disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.. Yn 2011/12 roedd 2.7 o bob 1,000 o ddisgyblion yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref, ond erbyn 2015/16 roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i, ac yn parhau i fod, 4.6 o bob 1,000 o ddisgyblion. Y cynnydd rhwng 2014/15 a 2015/16 (sef cynnydd o 0.7 pwynt canran) oedd y cynnydd mwyaf ers 2011/12.
- Bro Morgannwg oedd â'r gyfradd isaf o blant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref (1.9 o bob 1,000 o ddisgyblion) a Cheredigion oedd â'r gyfradd uchaf (18.4 o bob 1,000 o ddisgyblion). Ers 2011/12 mae'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref wedi bod yng Ngheredigion ac mae'r gyfradd nawr yn ddwbl yr awdurdod uchaf nesaf sef Sir Benfro.
- Gan fod rhieni'n hysbysu eu hawdurdod lleol yn wirfoddol eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref (oni ffont wedi tynnu eu plentyn o'r ysgol), mae'n bosibl nad yw'r data hyn yn cynnwys yr holl blant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

Nodiadau

Y Cyd-destun

Polisi/gweithrediadol

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu addysg addas yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol i'r plant hynny o oedran ysgol orfodol na chânt, oherwydd salwch, gwaharddiad o ysgol neu fel arall, dderbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni wneir y fath drefniadau iddynt.

Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r ddyletswydd honno mewn ffyrdd sy'n amrywio'n fawr iawn, gan eu cysylltu â'u hamgylchiadau unigol, megis eu daearyddiaeth, eu sefyllfa economaidd gymdeithasol a'u polisiau addysg.

Ffynhonnell data

Cynhelir Cyfrifiad Disgyblion EOTAS bob blwyddyn ac mae'n casglu data ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol oddi wrth awdurdodau lleol yn electronig trwy wefan ddiogel. Mae'r gwaith casglu'n cael ei wneud gan y tîm ystadegau ysgolion yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddeg yn Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn o dan bum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb

Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- adrannau llywodraethol eraill;
- awdurdodau lleol ac ysgolion;
- Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru;
- rhannau eraill o Lywodraeth Cymru;
- y gymuned ymchwil;
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- i gynghori Gweinidogion;
- i lywio'r broses benderfynu ym maes polisi addysg yng Nghymru;
- i ddarparu gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau o ysgolion;
- i gynorthwyo â gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael eu dilysu cyn i dablau gael eu cyhoeddi. Caiff data eu casglu ar ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru trwy DEWi, system ddiogel i drosglwyddo data ar lein a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwahanol gamau dilysu a gwirio synnwyr awtomatig yn rhan annatod o'r broses er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd da.

Gan ddechrau yn 2011/12, ar ôl casglu'r data, cynhaliwyd cyfnod dilysu ychwanegol pan anfonwyd tablau cryno o'u data at awdurdodau lleol, gan ofyn iddynt wirio eu bod yn gywir. Er y cadarnhawyd bod y rhan fwyaf o'r data'n gywir, tynnodd y cyfnodau gwirio hyn sylw at broblemau gyda data nifer o awdurdodau lleol, a gafodd eu datrys, gan wella cywirdeb y data ymhellach.

Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 10 Ionawr 2017, a gofynnwyd i'r awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer yr holl ddisgyblion oedd yn derbyn neu'n aros am addysg a ariennir gan awdurdod lleol y tu allan i ysgolion a gynhelir yn ystod wythnos y cyfrifiad, sef 9 i 13 Ionawr 2017. Yna gofynnwyd i'r awdurdodau lleol ddilysu eu data yn y cyfnod dilysu, a ddaeth i ben ar 28 Mehefin 2017.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar yr adran Ystadegau o wefan Llywodraeth Cymru.

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Yn Nhablau 8 a 9 ceir nifer y disgyblion nad ydynt ond ar gofrestri Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru fesul rhyw, oedran ac awdurdod lleol, sydd yn y blynyddoedd blaenorol wedi cael eu cyhoeddi yn nogfen Llywodraeth Cymru o'r enw 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol.' Cyn 2009/10 roedd y ffigurau ar gyfer y tabl hwn yn cael eu casglu'n uniongyrchol o'r Unedau Cyfeirio Disgyblion trwy'r ffurflen STATS1. Erbyn hyn mae Tablau 8 a 9 wedi'u seilio ar ddata o'r Cyfrifiad Disgyblion EOTAS a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mis Ionawr. Oherwydd y newid yn y fethodoleg a ddefnyddir, mae'n bosibl y bydd nifer y disgyblion a fyddai wedi cael eu cofnodi ar gofrestr Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig yn y ffurflen STATS1 ychydig yn wahanol i'r rheiny a gynhyrchwyd ar gyfer y datganiad ystadegol cyntaf hwn.

Yn rhifyn 2009/10 o'r datganiad hwn roedd Tabl 4 yn dangos nifer y disgyblion oedd wedi'u cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig (oedd yn cynnwys disgyblion oedd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un Uned Cyfeirio Disgyblion) a nifer y disgyblion oedd wedi'u cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a sefydliadau addysgol eraill. Er mwyn bodloni'r galw gan ddefnyddwyr, cafodd y tabl hwn (Tabl 8 erbyn hyn) ei newid yn rhifyn 2010/11 i ddangos nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn un Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig a nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn mwy nag un Uned Cyfeirio Disgyblion neu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ac ysgol a gynhelir arall. Mae'r diffiniadau newydd hefyd wedi cael eu defnyddio yn Nhabl 9 ac yn cyd-fynd â'r diffiniadau a ddefnyddiwyd gynt wrth ddangos nifer y disgyblion oedd yn mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion. Gan fod gan Dabl 4 yn natganiad 2009/10 a'r un tabl yn y datganiadau ers hynny ddiffiniadau gwahanol ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n unigol ac

yn ddeuol, nid argymhellir eu cymharu. Mae data cymaradwy ar gael gan y tîm ystadegau ysgolion yn Llywodraeth Cymru o wneud cais.

Mae'r tablau a'r siartiau yn y datganiad ystadegol cyntaf hwn yn cynnwys data am grwpiau gwahanol o ddisgyblion EOTAS fel y'u diffinnir yn adran 3.2. Nodir yn glir a yw'r tablau a'r siartiau'n cyfeirio at ddisgyblion EOTAS mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol, mae eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir neu'r holl ddisgyblion EOTAS, felly cyn cymharu dau dabl neu siart dylech wirio a ydynt yn cyfeirio at yr un grŵp o ddisgyblion EOTAS.

Gellir rhoi disgyblion fesul oedran ([Tabl 3](#)) a fesul AAA ([Tabl 4](#)) yn eu cyd-destun trwy gymharu â'r boblogaeth ysgol gyffredinol. Gellir gweld y data perthnasol yng nghyhoeddiad canlyniadau terfynol y cyfrifiad ysgolion yma: [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion](#)

Oherwydd na ddarparodd Sir Penfro ddata am addysg ddewisol yn y cartref fesul rhyw rhwng 2010/11 a 2011/12 ac na ddarparodd Ynys Môn y data hyn fesul oedran yn 2012/13, penderfynwyd dileu'r tabl yn dangos y data hyn fesul oedran a rhyw oherwydd problemau â chymaroldeb rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r data hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru o wneud cais. Ni ddarparodd Caerffili unrhyw ddata am ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn 2012/13. Yn 2016/17 ni ddarparodd Sir Gaerfyrddin unrhyw ddata am ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r data hyn â blynyddoedd eraill.

Diffiniadau

Cwmpas

Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn ymwneud â disgyblion sy'n derbyn addysg a ariennir gan awdurdod lleol y tu allan i ysgol briif ffrwd yn ystod wythnos cyfrifiad bob mis Ionawr a nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol (rhwng 5 a 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd) y gŵyr awdurdodau lleol eu bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 dyddiadau wythnos y cyfrifiad oedd 9 i 13 Ionawr 2017.

Yn 2016/17 cafwyd data ar 1,972 o ddisgyblion oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol oddi wrth bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. O'r 1,972 o ddisgyblion oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, cofnodwyd yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2017 bod 570 ohonynt â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig a gynhelir ac felly barnwyd eu bod yn derbyn eu prif addysg mewn ysgol a gynhelir. Barnwyd bod y 1,402 o ddisgyblion eraill yn derbyn eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn canolbwyntio ar ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg gan fwyaf heblaw yn yr ysgol, ond er mwyn rhoi darlun cyflawn, roedd angen cynnwys yr holl ddisgyblion oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn [Nhablau 1, 8 a 9](#).

Cofnododd awdurdodau lleol ei bod yn hysbys yn 2016/17 bod 1,808 o ddisgyblion yn cael addysg ddewisol yn y cartref. O'r disgyblion hyn, roedd yn hysbys nad oedd 84 o oedran ysgol gorfodol, felly cawsant eu hepgor o'r ffigurau a geir yn y datganiad hwn, gan adael cyfanswm o 1,724 o ddisgyblion.

O 2010/11 i 2011/12 ni ddarparodd Sir Penfro ddadansoddiad fesul rhyw o'i ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Yn 2012/13 ni ddarparodd Ynys Môn oedran ei ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref ac yn 2013/14 ni ddarparodd Sir Gâr yr oedran ar gyfer 9 o'i ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref, gan olygu nad oedd yn bosibl penderfynu a oeddent o oedran ysgol gorfodol ai peidio. Yn 2012/13 ni ddarparodd Caerffili unrhyw wybodaeth ynghylch disgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Yn 2016/17 ni ddarparodd Sir Gaerfyrddin unrhyw ddata am ddisgyblion oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Nid yw'n orfodol i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth hon.

Diffiniadau o Ddisgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Yng nghyd-destun y datganiad ystadegol hwn:

- cofnodwyd bod disgybl oedd yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn derbyn neu'n aros am ddarpariaeth addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol heblaw mewn ysgol a gynhelir yn ystod wythnos y Cyfrifiad Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Gall disgybl gael ei gynnwys yn y categori hwn hefyd:
 - os yw'n mynychu ysgol arbennig annibynnol neu nas cynhelir y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu'r cyfan neu ran o'r ffioedd dysgu ar ei chyfer
 - os yw'n cael ei leoli mewn ysgol a gynhelir fel rhan o'i addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol.
- defnyddir yr ymadrodd disgybl EOTAS i gyfeirio at ddisgybl sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol fel y'i diffinnir uchod.
- disgybl EOTAS sydd â'u brif addysg heblaw yn yr ysgol yw disgybl sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol sydd naill ai heb fod ar gofrestr ysgol a gynhelir neu y cofnodir bod ganddo statws cofrestru 'atodol gyfredol' mewn ysgol a gynhelir yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mis Ionawr.
- disgybl EOTAS sydd â'u brif addysg mewn ysgol a gynhelir yw disgybl sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol sydd â statws cofrestru 'prif gyfredol' neu 'cyfredol' yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mis Ionawr.
- disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yw plant mae eu rhieni wedi penderfynu eu haddysgu yn y cartref yn hytrach nag yn yr ysgol ac nid ydynt yn cael eu cyfrif yn ddisgyblion EOTAS. Er eu bod trwy ddiffiniad yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, nid yw'r addysg i'r disgyblion hyn yn cael ei hariannu gan yr awdurdod lleol ac nid oes unrhyw sail gyfreithiol i'r awdurdod lleol gasglu data personol amdanynt. Mae data ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cyfyngu i gyfrifiadau gan awdurdod lleol ac fe'u darperir yn wirfoddol gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffigurau ynghylch disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cofnodi mewn tablau ar wahân i'r rheiny ynghylch disgyblion EOTAS.

Cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim

Mae plant mae eu rhieni'n cael y taliadau cymorth canlynol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Cymhorthdal Incwm.
- Cymorth Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm.
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blyneddol yn fwy nag £16,190.
- Eifen gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- Y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall pan nad yw'n gymwys i gael Credyd Treth Gwaith mwyach.
- Credyd Cynhwysol.

Mae plant sy'n cael lwfans cyflogaeth a chymorth yn gysylltiedig ag incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm yn eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ni ddylid cofnodi bod disgyblion yn gymwys ond os ydynt wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'r awdurdod lleol ac (1) bod yr awdurdod perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn gymwys, neu (2) eu bod yn dal i aros am gadarnhad terfynol eu bod yn gymwys ond bod yr ysgol wedi gweld dogfennau sy'n rhoi awgrym cryf eu bod yn gymwys.

Anghenion addysgol arbennig (AAA)

Gall disgyblion y gwyddys bod ganddynt anghenion addysgol arbennig fod yn un o'r categorïau canlynol:

- **Gweithredu gan yr Ysgol:** Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc yn canfod bod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig mae'n darparu ymyriadau sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.
- **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:** Pan fo'r athro/athrawes dosbarth neu bwnc a'r Cydgysylltydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel y gellir gweithredu ymyriadau amgen sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir i'r disgybl trwy 'Weithredu gan yr Ysgol'.
- **Datganiad:** Disgyblion mae'r awdurdod lleol yn cadw datganiad o anghenion addysgol arbennig iddynt o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996. Gall datganiad gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod lleol ar ôl asesiad o anghenion plentyn.

Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau lle mae ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r digid terfynol agosaf, mae'n bosibl y bydd anghysondeb ymddangosiadol rhwng swm yr eitemau unigol a'r cyfanswm a ddangosir.

Mae'r symbolau canlynol wedi cael eu defnyddio trwy'r cyhoeddiad hwn i gyd:

- . nid yw'r eitem data'n gymwys.
- .. nid yw'r eitem data ar gael.
- nid sero yw'r eitem data, ond câi ei thalgrynnu i sero oherwydd dangosir llai na hanner y digid terfynol.
- * mae'r eitem data yn datgelu gwybodaeth.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?lang=cy>

Mae Lloegr yn cyhoeddi nifer y disgyblion ar gofrestri Unedau Cyfeirio Disgyblion yn y datganiad ystadegol a elwir 'Schools, Pupils and their Characteristics: January 2017'. Gellir gweld yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael yma: [Schools, pupils and their characteristics: January 2017](#) (Saesneg yn unig)

Diweddariad nesaf

Gorffennaf 2018 (Dros dro)

Fe fydd y diweddariad nesaf yn cynnwys data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

